***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 3541

# Gorchymyn Hysbysu ynghylch Tatws sy'n Deillio o'r Almaen (Cymru) 2001

**Hysbysu ynghylch mewnforion**

**3.**—(1) Ni chaiff neb fewnforio i Gymru datws Almaenaidd, hynny yw, unrhyw datws y maent yn gwybod neu y mae ganddynt sail resymol dros gredu eu bod wedi deillio o'r Almaen, oni bai eu bod wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig i arolygydd, o leiaf ddau ddiwrnod cyn y dyddiad yr oeddent yn bwriadu cyflwyno'r tatws i Gymru, ynghylch eu bwriad i fewnforio'r tatws ac ynghylch:

(a) amser, dyddiad a dull arfaethedig eu cyflwyno;

(b) y man arfaethedig ar gyfer dod â hwy i mewn i Gymru;

(c) y defnydd arfaethedig ar y tatws;

(ch) yn achos tatws hadyd neu datws sydd wedi'u bwriadu i'w prosesu, cyrchfan arfaethedig y tatws;

(d) rhywogaeth y tatws;

(dd) y maint o datws; ac

(e) rhif adnabod y cynhyrchydd neu gyfeirnod y lot.

(2) Rhaid i unrhyw berson a fewnforiodd datws Almaenaidd i Gymru ar ôl 30 Medi 2001 a chyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym, roi hysbysiad ysgrifenedig i arolygydd erbyn 23 Tachwedd 2001 fan bellaf —

(a) y dyddiad y mewnforiwyd y tatws;

(b) y man lle doed â hwy i mewn i Gymru;

(c) y defnydd arfaethedig ar y tatws;

(ch) yn achos tatws hadyd neu datws sydd wedi'u bwriadu i'w prosesu, cyrchfan neu gyrchfan arfaethedig y tatws;

(d) rhywogaeth y tatws;

(dd) y maint o datws; ac

(e) rhif adnabod y cynhyrchydd neu gyfeirnod y lot.

(3) Yn yr erthygl hon ystyr "prosesu" ("*processing*") yw unrhyw driniaeth ddiwydiannol, gan gynnwys graddio, didoli, golchi a phacio, p'un ai gyfer manwerthu neu beidio.